OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 308

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020

**Datganiad bygythiad difrifol ac uniongyrchol**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn datgan, drwy hysbysiad a gyhoeddir ar www.llyw.cymru, fod mynychder neu drosglwyddiad Coronafeirws yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, a bod mynychder neu drosglwyddiad Coronafeirws wedi cyrraedd pwynt lle y byddai'n rhesymol ystyried bod y mesurau a amlinellir yn y Rheoliadau hyn yn ffordd effeithiol o oedi neu atal trosglwyddiad arwyddocaol pellach Coronafeirws ("datganiad bygythiad difrifol ac uniongyrchol").

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddirymu datganiad bygythiad difrifol ac uniongyrchol drwy hysbysiad dilynol a gyhoeddir ar www.llyw.cymru.

(3) Cyn gwneud datganiad o dan baragraff (1), neu ddirymu datganiad o dan baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw priodol i unrhyw gyngor gan Brif Swyddog Meddygol neu un o Ddirprwy Brif Swyddogion Meddygol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

(4) Nid yw cyhoeddi hysbysiad o dan baragraff (2) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw gamau a gymerir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn cyhoeddi'r hysbysiad.

(5) Rhaid i hysbysiad a gyhoeddir o dan baragraff (1) neu (2) gael ei ddilyn drwy gyhoeddi'r hysbysiad, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn y London Gazette ac mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yng Nghymru.